

.....dosbarthiad a chynefin

Wedi cyrraedd eu llawn dwf, bydd y chwilog hyn, sy'n gyffredin ym mhob rhan o Brydain ac Ewrop, yn hedfan i bobman gan fwydo ar baill a neithdar pennau blodau yn ystod misoedd yr haf. Mae angen llawer o brotein anifeiliaid ar y cynrhon a byddant yn ffynnu'n naturiol mewn nythod adar sych. Mewn tai, gellwch ddod o hyd i'r chwilog hyn mewn carpedi, dillad a ffwr a chroen anifeiliaid (gan gynnwys anifeiliaid sydd wedi'u stwffio) a gwyddom eu bod yn fwy tebyg o ymddangos os oes gennych adar yn nythu yn y bondo neu geudod y to.

.....bioleg

Bydd y fenyw'n dodwy ei hwyau gwynnaidd ar ben bwyd sy'n addas i gynrhon neu'r tu fewn iddo. Wedi deori, bydd y cynrhon yn bwydo'n ddi-baid ac yn tyfu drwy fwrw eu croen nifer o weithiau cyn troi'n chwilerod yn eu croen diwethaf. Hyd yn oed ar ôl dod allan, bydd y chwilen aeddfed newydd yn cadw'r croen hwnnw am ychydig ddyddiau cyn ei fwrw'n llwyr a hedfan i ffwrdd i chwilio am baill neu neithdar. Bydd chwilog aeddfed sydd wedi methu dianc o dai neu adeiladau eraill i'w gweld yn aml ar silffoedd ffenestri.

Bydd chwilog carpedi fel arfer yn cenhedlu unwaith y flwyddyn yn unig, a bydd y chwilog benywaidd aeddfed yn dychwelyd i adeiladau yn yr Hydref er mwyn dodwy eu hwyau. Os bydd y tywydd yn oer, bydd y cynrhon yn cysgu'r gaeaf ac yn dechrau bwydo eto yn y gwanwyn.

.....pa ddifrod bydd yn ei achosi?

Byddwn yn sylwi ar y rhywogaeth hon a'u tebyg mewn tai'n arbennig am eu bod yn difrodi ffibrau gwlan carpedi, dillad gwely, dillad, ffwr anifeiliaid, crwyn a lledr. Byddant hefyd, o dan amgylchiadau eraill, yn bwyta a difrodi samplau o anifeiliaid sydd wedi'u stwffio a chasgliadau o bryfed.



02819 (3/04)

.....rheoli

Cael gwared â'r deunydd sy'n cynnal y chwilog yw'r cam cyntaf. Gallai hwn fod yn hen nyth aderyn, gwed-dillion anifail, deunydd inswleiddio neu lapio gwlanog neu'r darnau bach o ysbwriel sy'n casglu rhwng estyll y llawr.

Symudwch a dinistriwch unrhyw ddeunydd sy'n berwi o chwilog neu chwiliwch am ffordd arall o gael gwared ohono. Golchwch bobman yn hollol lân ar ôl y chwilog, gan ddefnyddio blaen piben sugwr llwch, a thynnwch unrhyw gynrhon a thameidiau o ysbwriel yn llwyr o bob crac ac agen. Wedyn, taenwch bryfleiddiad powdwr dros y manau y buoch yn eu golchi, gan wneud yn hollol siŵr eich bod yn trin y craciau a'r agennau. Cofiwch ei bod yn bwysig dilyn cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr yn ofalus wrth ddefnyddio'r math hwn o bryfleiddiad.

.....gwasanaeth yr awdurdod lleol

Gallwn drefnu i Swyddog Difa Pla proffesiynol ddod i drin eich chwilog carpedi, ond byddwn yn codi tâl am y gwasanaeth hwnnw.

Taflenni eraill yn y gyfres hon:

1 Chwain	7 Mosgitos	13 Chwilog Duon
2 Llygod Ffrengig	8 Colomennod	14 Pÿcs
3 Llygod	9 Gwylanod	15 Chwilog Carpedi
4 Morgrug	10 Gwiwerod	16 Clêr
5 Cacwn Meirch	11 Cadnoid	
6 Gwenyn	12 Llau Llyfrau (Psocids)	

Ein rhif cysylltu:

01446 709105

Ein cyfeiriad:

Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoli,
Swyddfeydd Dinesig, Heol Holton, Y Barri CF63 4RU

ebost: regserv@valeofglamorgan.gov.uk

www.valeofglamorgan.gov.uk



an advice note from your Pest Control Service
No. 15 in the series

carpet beetles!



www.valeofglamorgan.gov.uk

...gair o gyngor oddi wrth Wasanaeth Difa Pla Cyngor Bro Morgannwg...

.....distribution and habitat

Found commonly throughout Europe and Britain, the adult beetles fly freely, feeding on pollen and nectar on flower heads during the summer months. The larvae need a high animal-protein diet and occur naturally in dry birds nests. They appear in domestic situations infesting carpets, clothes, animal furs and skins (including stuffed specimens) and are often associated with bird nesting activity in eaves and roof spaces.

.....biology

The female beetle lays the whitish eggs in or on a suitable larval food. Continuously feeding, the larvae grow by moulting several times before pupating inside the last larval skin. Even newly emerged adults remain inside this skin for a few days, before fully emerging and flying towards a pollen/nectar source. The adults are frequently found on window ledges, having failed to escape from the house or other buildings.

There is usually only one generation per year, the adult females returning to buildings in the autumn for egg laying. In cold conditions, the larvae will hibernate and resume feeding in the spring.

.....what damage does it do?

This species and its relatives are of particular significance in domestic properties where they will damage the woollen fibres of carpets, bedding and clothing, animal fur, skins and leather. In other situations they will frequently eat and damage stuffed animals and insect specimens in collections.



02819 (3/04)

.....control

The first step is for you to find and remove the source of the infestation. This may be an old bird's nest, animal remains, wool based insulation or lagging or the debris which accumulates between floorboards.

If materials are heavily infested they should be removed and destroyed or otherwise disposed of. Infested area should be cleaned thoroughly using a nozzle vacuum cleaner, concentrating on removing debris and larvae from cracks and crevices. An application of a residual insecticide should then be made to the area, concentrating on treating cracks and crevices. When using a residual insecticide it is important to carefully follow manufacturer's instructions.

.....local authority service

If required a Professional Pest Control Officer will visit and treat for carpet beetles, however, a charge is made for this service.

Other leaflets available in this series:

1 Fleas	7 Mosquitos	13 Cockroaches
2 Rats	8 Pigeons	14 Bedbugs
3 Mice	9 Seagulls	15 Carpet Beetles
4 Ants	10 Squirrels	16 Flies
5 Wasps	11 Foxes	
6 Bees	12 Booklice (Psocids)	

Our contact number:

01446 709105

Our address:

Legal & Regulatory Services,
Civic Offices, Holton Road, Barry CF63 4RU

Our email: regserv@valeofglamorgan.gov.uk

www.valeofglamorgan.gov.uk

VALE of GLAMORGAN



BRO MORGANNWG

Gair o gyngor oddi wrth eich Gwasanaeth Difa Pla
Rhif 15 yn y gyfres

chwilod carpedi!



VALE of GLAMORGAN



BRO MORGANNWG